




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

2019 - 2020





Tudalen Gynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
1. Cyflwyniad	4
2. Ein Dyletswyddau Cyfreithiol	5
3. Ein Hymrwymiad	6
4. Ein Sefydliad	7
5. Monitro ein Cynnydd	8
6. Gweithio Gyda'n Gilydd	9
7. Gwaith arall i wella cydraddoldeb	19
8. Casgliad ac edrych i'r dyfodol	22





Crynodeb Gweithredol

Croeso i'n Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n cynnwys y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y gwaith y mae'r sefydliad wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod hwn i wella cydraddoldeb ymhellach a gweithio gyda chymunedau amrywiol. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym yn parhau i ymrwymo i wella ein gwaith ar gydraddoldeb ymhellach.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhywfaint o'r gwaith roeddem yn rhan ohono yn ystod 2019–20 sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn ehangach, a'r cyfranogi a'r ymgynghori a wnaethom i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a fydd yn cwmpasu o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2024. Mae'n dangos sut mae ein timau a'n gwasanaethau wedi cydweithio â phobl o grwpiau â nodweddion gwarchodedig (y nodweddion hynny a gaiff eu gwarchod yn ôl y gyfraith) i ddeall eu hanghenion yn well a gwella'r gwasanaethau rydym yn darparu ar eu cyfer.

Yn ystod wythnosau diwethaf y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, symudodd y sefydliad yn gyflym er mwyn bod wrth wraidd ymateb Cymru i bandemig COVID-19. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gweithredu newidiadau'n gyflym er mwyn sefydlu canolfan gyswllt 24 awr a oedd yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos, sefydlu canolfannau profi ledled Cymru, ymdopi â'r cynnydd enfawr yn y galw am brofi yn ein labordai a chyfathrebu gwybodaeth ac arolygon ar raddfa eang ar draws gwahanol gymunedau a grwpiau poblogaeth. Roedd graddfa'r newid yn ddigynsail, ac ymgymerodd staff â'r heriau o addasu i rolau newydd a ffyrdd newydd o weithio mewn mater o wythnosau.




01. Cyflwyniad




Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom dreulio llawer o amser a gwneud ymdrech fawr i ystyried sut y gallwn gryfhau ein hymrwymiad at gydraddoldeb, a gweithio gyda gwahanol randdeiliaid i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024, fel y gallwn barhau i adeiladu ar ein cyflawniadau blaenorol.

Rydym wedi ymrwymo yn llawn i gyflawni'r hyn sydd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â phobl ledled Cymru wrth inni wireddu'r ymrwymadau a'r amcanion a osodwyd yn y cynllun.





02. Ein Dyletswyddau Cyfreithiol



Yn unol â dyletswydd gyffredinol ar gydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw fath arall o ymddygiad sydd wedi ei wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- trin pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad oes ganddynt nodweddion gwarchodedig yn gyfartal; ac
- annog perthnasau da rhwng y bobl hynny sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r ddeddf yn amddiffyn pobl â nodweddion gwarchodedig. Y rhain yw:

Anabledd
Hil
Beichiogrwydd a mamolaeth
Rhywioldeb
Ailbennu rhywedd
Oedran
Rhyw
Crefydd a chred
Priodas a phartneriaeth sifil

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i ni fodloni'r dyletswyddau penodol, sy'n cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol), a

Rheoliadau (Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau hyn i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011 ac maent yn cynnwys y canlynol:

- datblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol sy'n cynnwys ein hamcanion cydraddoldeb;
- cynnwys y cyhoedd a'n partneriaid o grwpiau gwarchodedig pan fyddwn yn datblygu cynlluniau a pholisïau a llywio gwasanaethau;
- cwblhau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb priodol;
- casglu a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb, cyflogaeth a gwahaniaeth mewn cyflog;
- hyrwyddo hyfforddiant yn seiliedig ar gydraddoldeb i staff;
- ystyried cydraddoldeb wrth brynu gwasanaethau a chytuno ar gontractau;
- cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol;
- adolygu ein cynlluniau a'n hamcanion cydraddoldeb i sicrhau eu bod yn gyffredol;
- sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth rydym yn ei darparu.



03. Ein Hymrwymiad

Er mwyn annog arferion da yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, mae'n rhaid i ni sicrhau'r canlynol:

- bod ein harweinyddiaeth yn effeithiol a bod pawb ar bob lefel yn y sefydliad yn cymryd cyfrifoldeb dros gydraddoldeb;
- cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a gwrando arnynt i ddeall a diwallu eu hanghenion yn well wrth ddarparu ein gwasanaethau;
- cydweithio fel partneriaid cyfartal â phobl â nodweddion gwarchodedig i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu;
- adeiladu ar arferion da sy'n bodoli eisoes a rhannu dysg ledled ein sefydliad;
- buddsoddi mewn adnoddau i hyrwyddo cydraddoldeb yn effeithiol; a
- mynd uwchlaw a thu hwnt ein dyletswyddau cyfreithiol drwy gymryd camau gweithredu cadarnhaol o ran materion yn ymwneud â chydraddoldeb.

Rydym yn gwbl ymroddedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac wedi bod yn gwneud cynnydd yn erbyn ein camau gweithredu a'n hamcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 diwygiedig, a gafodd ei gymeradwyo gan ein Bwrdd ym mis Mawrth 2016. Mae'n nodi cynllun clir ar gyfer y dyfodol ag amcanion wedi'u diffinio'n glir, fel y dangosir isod. Eleni, mae gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu set newydd o amcanion gyda'n partneriaid, er mwyn cwmpasu 2020-2024. Bydd y rhain yn adeiladu ar y sylfaen dda a adeiladwyd eisoes drwy gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb strategol blaenorol.

Amcanion Cydraddoldeb 2016 - 2020

Amcan 1

Cynnwys a gweithio gyda chymunedau a phobl o bob oedran, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan ddefnyddio eu dealltwriaeth i gefnogi a chyfeirio ein gwaith.

Amcan 2

Trosglwyddo ein negeseuon mewn modd y gall pawb gael mynediad atynt, gan gynnwys y bobl â nodweddion gwarchodedig.

Amcan3

Sicrhau bod ein holl bolisiau a'n penderfyniadau'n trin yr holl grwpiau o bobl yn deg, a chynnwys pawb.

Amcan 4

Meithrin perthynas waith agosach â phartneriaid sector cyhoeddus eraill i wella sut rydym yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth.

Amcan 5

Cael ein cydnabod fel cyflogwr teg, cynhwysol ac arloesol.

Rydym yn gwbl ymroddedig i gyflawni yn unol â'r camau gweithredu yn y cynllun. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol [yma](#).




04. Ein Sefydliad

Rydym yn ymddiriedolaeth GIG Cymru Gyfan. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn (Ebrill 2019 tan fis Mawrth 2020), gwnaethom gyflogi ychydig dros 1900 o bobl. Mae ein staff yn gweithio'n rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol i ddarparu ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus.


Ein gweledigaeth yw gweithio er mwyn cael dyfodol iachach i Gymru. Rydym wedi ymrwymo i wella iechyd a llesiant pobl a lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd. Byddwn yn parhau i wrando a dysgu wrth y bobl rydym yn eu gwasanaethu, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.

Rydym wedi bod yn gweithio i wireddu ymrwymïadau ein Cynllun Strategol, sy'n nodi sut y byddwn yn gweithio dros bobl Cymru dros y 2 flynedd nesaf. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar barhau i wella ein gwasanaethau fel eu bod o safon uchel, yn ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r saith blaenoriaeth isod.





05. Monitro ein Cynnydd



Mae'r Prif Swyddog Gweithredol, ar y cyd â'n bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn bodloni ein dyletswyddau cyfreithiol.

Mae ein rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cydraddoldeb, a gafodd ei sefydlu yn ystod 2017, yn parhau i helpu i ymgorffori cydraddoldeb ac adrodd ar gynnydd o fewn yr adrannau. Mae gan unigolion sydd wedi ymgymryd â'r rôl hon ar ran eu hadran gryn ddiddordeb mewn datblygu cydraddoldeb ymhellach; maent yn darparu ac yn rhannu gwybodaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb yn lleol.

Yn ogystal, mae ein Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan fod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eitem safonol ar eu hagenda. Cadeirydd Pwyllgor y Bwrdd hwn yw un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol sydd hefyd yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd gan sicrhau bod ffocws a chefnogaeth ar lefel uwch.

5.1 Adroddiad y Gweithlu

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus llynu wrth eu dyletswyddau cyfreithiol yn unol ag Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae dyletswyddau penodol y mae'n rhaid iddyn nhw eu bodloni, gan gynnwys adrodd ar wybodaeth am gyflogaeth, hyfforddiant a chyflog.

Gall hyn gynnwys gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig ein staff a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, neu'r dystiolaeth a ddefnyddir i ddatblygu polisiau ac i lywio ein penderfyniadau. Mae casglu, defnyddio a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn ein helpu i wneud y canlynol:

- deall effaith ein polisiau, ein harferion a'n penderfyniadau ar y cyhoedd a staff sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol;

- sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â nodweddion gwarchodedig;
- cymryd camau i hyrwyddo cydraddoldeb ac annog cysylltiadau da o fewn ein sefydliad ac yn ehangach;
- nodi ein prif faterion yn ymwneud â chydraddoldeb;
- gwirio bod ein gweithlu'n cynrychioli amrywiaeth poblogaeth Cymru;
- sicrhau bod ein staff yn deall y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu;
- creu sefydliad sy'n fwy agored er mwyn helpu i esbonio sut a pham rydym yn gwneud ein penderfyniadau; a
- rhannu ein llwyddiant wrth gefnogi cydraddoldeb â'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn am y gweithlu wedi'i gyhoeddi ar gyfer cyfnod yr adroddiad blynyddol ynghyd â'r adroddiad hwn, fel dogfen annibynnol.

Rydym yma i annog
ac i hyrwyddo'r
amcanion iechyd
"Gwella Bywydau"



06. Gweithio Gyda'n Gilydd

Yn ystod 2019-2020, cydweithiom â chymunedau gwahanol ledled Cymru i wella eu profiadau o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Mae'r adrannau canlynol yn amlygu rhywfaint o'r gwaith rydym wedi bod ynghlwm wrtho. Mae'r gwaith a gyflawnwyd wedi'i adrodd gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig i ddangos beth sydd wedi'i gyflawni ar gyfer pob grŵp.

6.1 Gweithio gyda galluoedd gwahanol

6.1.1 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anableddau Dysgu

Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o anableddau dysgu i staff sgrinio rheng flaen o'r holl raglenni ledled Cymru. Datblygwyd y pecyn hyfforddiant wedi'i deilwra gan Bobl yn Gyntaf Caerdydd ac fe'i darparwyd gan bobl ag anableddau dysgu. Nod yr hyfforddiant oedd codi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau y mae pobl ag anableddau dysgu yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a sut y gall gwasanaethau wneud addasiadau rhesymol i wella mynediad. Darparwyd yr hyfforddiant yn dilyn argymhellion gan werthusiad y gwasanaeth anableddau dysgu a gynhaliwyd gan Dîm Ymgysylltu â Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru.

6.1.2 Tîm Gwelliant Iechyd Anabledd Dysgu

Mae 'Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau' (Llywodraeth Cymru, 2018) yn rhaglen drawsnewid sy'n cefnogi 'Ffyniant i Bawb' (2017). Mae'r rhaglen wedi nodi pum maes â blaenoriaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac i wella bywydau pobl ag anableddau dysgu. Y pum thema a nodwyd yw blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a chyflogaeth. Sefydlwyd Tîm 'Gwelliant Iechyd

Anabledd Dysgu' Gwelliant Cymru yn ystod haf 2019, gyda'r nod o ganolbwyntio ar yr amcanion iechyd, fel yr amlinellir mewn gohebiaeth gan y Prif Swyddog Nyrsio. Y nod cyffredinol yw 'lleihau lefel anghymesur o uchel yr anghydraddoldebau iechyd y mae pobl ag anableddau dysgu yn ei phrofi, gan gynnwys lleihau marwolaethau y gellir eu hosgoi a'u hatal, a gwella llesiant ac ansawdd bywyd'.

Mae'r Tîm Gwelliant Iechyd Anabledd Dysgu yn cynnwys chwe gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arbenigol Anabledd Dysgu o Fyrdau Iechyd ledled Cymru, yn ogystal ag academia. Gwnaeth y rhan fwyaf o aelodau'r tîm aros yn eu swyddi o haf 2019 mewn seondidiadau a oedd yn para hyd y prosiect, tan fis Mawrth 2022. Mae gweledigaeth y tîm fel a ganlyn:

- Rydym yma i annog ac i hyrwyddo'r amcanion iechyd "Gwella Bywydau".
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i greu gwelliannau cynaliadwy yn iechyd a llesiant pobl ag anableddau dysgu.
- Caiff hyn ei alluogi gan gyd-gynhyrchu gwirioneddol ac arferion gwella ansawdd.

Yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf, gwnaeth y tîm gwblhau rhwydweithio a chwmpasu gwasanaethau iechyd Anabledd Dysgu cyfredol yn helaeth ledled Cymru. Yna, cwblhaodd y tîm gyfres o Ddigwyddiadau Ymgysylltu ledled Cymru, gan lansio'r rhaglen a chael sylwadau gan gannoedd o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Gwnaeth y tîm fynd i nifer o gynadleddau pwysig hefyd, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid trydydd sector a chyfweld â'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain. Yn ogystal, gwnaeth y tîm gyflwyno poster i yng nghynhadledd Gwelliant Cymru. Tra mae'r cynllun gwaith yn cael ei yrru gan y Rhaglen Gwella Bywydau, gwnaeth y digwyddiadau ymgysylltu alluogi'r gwaith o lunio amcanion mewn cynlluniau gwella ansawdd. Mae gan y tîm weithgarwch cynllun gwaith mewn pedair ffrwd gydgyssylltiedig, sef: Iechyd Corfforol; Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd; Plant a Phobl Ifanc; Gwasanaethau Arbenigol; ynghyd â gweithgarwch yr holl ffrwd waith. Ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd y tîm yn barod i gynnal ein grŵp cydweithredol Arweinwyr Anabledd Dysgu agoriadol, a nod y digwyddiad hwn oedd rhannu canfyddiadau thematig o'r Digwyddiadau Ymgysylltu a manylion y cynllun gwaith presennol, gan gynnwys darnau o waith a gomisiynwyd a gafodd eu cyd-gynhyrchu gan Brifysgol De Cymru. Cafodd y digwyddiad hwn ei ganslo oherwydd effaith gynyddol COVID-19.

6.1.3 Ymgyrch y Ffliw

Fel rhan o ymgyrch y ffliw 2019-20, gwnaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy greu pamffled ar sawl ffurf ac mewn gwahanol ieithoedd yn amlinellu'r hawl am frechiad y ffliw. Roedd hyn yn ymgais i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i bawb waeth beth fo'u gallu o ran darllen, eu nam ar y synhwyrâu neu eu nam corfforol.

Roedd y pamffled ar gael yn y Gymraeg, Saesneg, print bras (Cymraeg a Saesneg), fersiwn hawdd ei deall (Cymraeg a Saesneg), laith Arwyddion Prydain (isdeitlau yn y Gymraeg a Saesneg) ac ar ffurf sain. Oherwydd cyfyngiadau â gwefan newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, nid oedd data defnydd ar gael.

6.1.4 Gwybodaeth Hygyrch

Yn 2019-20, cyflwynwyd brechlyn HPV cyffredinol yn y rhaglen frechu HPV – gan ehangu'r rhaglen i gynnwys bechgyn ym mlynnyddoedd ysgol 8 a 9, ochr yn ochr â'r rhaglen bresennol ar gyfer merched. Wrth ddatblygu cyfres o adnoddau i gyd-fynd ag ehangu'r rhaglen, datblygodd y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy daflen Hawdd ei Darllen (Cymraeg a Saesneg) i roi mynediad hawdd i bobl ifanc ag anableddau dysgu at wybodaeth.

Lansiodd yr Is-adran Sgrinio ei strategaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd wedi'i diweddarau a'i phhecyn cymorth ategol. Mae'r ddwy ddogfen yn darparu canllawiau arferion gorau cynhwysfawr ar gynhyrchu gwybodaeth o ansawdd uchel, gan gynnwys fformatau hygyrch.


Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o adnoddau gwybodaeth Hawdd ei Darllen y rhaglen. Cynhelir adolygiad ymgysylltu gydag ystod eang o bartneriaid o sefydliadau anableddau a BAME i lywio'r datblygiad. Caiff yr adnoddau newydd eu lansio yn 2020.

Mae'r Cynllun Imiwneiddio Strategol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn amlinellu sut y bydd y Bwrdd Iechyd a darparwyr gofal sylfaenol yn amddiffyn ac yn gwella iechyd y boblogaeth trwy wella faint o bobl sy'n derbyn brechlynnau ar gyfer grwpiau cymwys ar draws y cwrs bywyd. Mae brechu yn cynrychioli un o'r ymyriadau iechyd y cyhoedd mwyaf cost-effeithiol sydd ar gael.

Gan gydnabod anghenion amrywiol poblogaeth Gogledd Cymru, cynhaliodd Tîm Iechyd y Cyhoedd sesiwn Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar y Cynllun Strategol drafft. Roedd cyfranogwyr yn cynnwys aelodau o'r bwrdd iechyd, Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol a sefydliadau'r trydydd sector yn cydweithio â grwpiau cydraddoldeb. Defnyddiodd y grŵp Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd integredig Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal y sesiwn sgrinio. Arweiniodd hyn at nifer o argymhellion, gan gynnwys argaeledd adnoddau gwybodaeth hygyrch, ymgysylltu â gwahanol grwpiau cymunedol i nodi rhwystrau tuag at nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio a datblygu cynllun ymgysylltu a chyfathrebu cynhwysfawr i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o raglenni imiwneiddio ar draws Gogledd Cymru. Roedd holl argymhellion yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o'r cynllun gweithredu dilynol, a ddatblygwyd i weithredu'r strategaeth.

Mae Helpa Fi i Stopio, ein llinell gyngor ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu, wedi sicrhau bod y gwasanaeth ar gael i bobl fyddar neu drwm eu clyw drwy gyfathrebu â chleientiaid drwy e-bost a neges destun i greu archeb iddynt, yn hytrach na'u bod yn gorfod archebu drwy ffonio'r rhif 0800.

Mae'r llyfryn Pasbort i Fod yn Ddi-fwg bellach ar gael drwy ffeil sain ar gyfer y rhai sy'n rhannol ddall.



Mae taflenni cyn-profi'r rhaglen Mamau a Phlant bellach ar gael mewn fformat Sain ac Iaith Arwyddion Prydain ar y gwefannau. Mae braille hefyd ar gael.



6.1.5 Adnoddau Newydd

Mae'r isadran wedi datblygu ystod o wybodaeth hygyrch yn ystod y cyfnod adrodd. Mae gwybodaeth hygyrch yn cynnwys:

Gwybodaeth am wahoddiad i sgrinio'r coluddyn mewn fformatau Hawdd eu Darllen, Iaith Arwyddion Prydain, Sain a Braille.

Sgrinio Serfigol – Ynglŷn â'ch colposgopi yn Iaith Arwyddion Prydain a Sain. Mae fformat Hawdd ei Ddarllen yn cael ei ddatblygu.

Mae taflenni cyn-profi'r rhaglen Mamau a Phlant bellach ar gael mewn fformat Sain ac Iaith Arwyddion Prydain ar y gwefannau. Mae braille hefyd ar gael. Cafodd yr wybodaeth hawdd ei darllen ei hadolygu a'i diweddu hefyd.

6.1.6 Gweithleoedd iach

Mae Cymru Iach ar Waith yn gweithio gyda chyflogwyr i greu gweithleoedd iach ac i wella iechyd a llesiant y gweithlu yng Nghymru. Trwy dîm o staff arbenigol, offer ar-lein, adnoddau ymarferol a gwobrau, mae Cymru Iach ar Waith yn cefnogi cyflogwyr o bob maint ac o bob sector i nodi eu hanghenion ac i weithredu i wneud gwelliannau. Yn ystod 2019/20, datblygwyd

gweithgareddau Cymru Iach ar Waith ymhellach mewn perthynas â chefnogi cyflogwyr i reoli absenoldeb salwch yn effeithiol, ac mae hyn wedi cynnwys rhoi pwyslais ar anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, ynghyd ag anghenion y rhai sydd ag anableddau a chyflyrau hirdymor. Mae'r gwaith wedi cynnwys sefydlu partneriaeth aml-asiantaeth newydd i ddatblygu cynllun gweithredu a bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

6.1.7 Nam ar y synhwyrâu

Mae'r Tîm Ymgysylltu a Chydweithio yn y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn cydlynu rhaglen waith i leihau'r rhwystrau at iechyd ar gyfer y rhai â nam ar y synhwyrâu. Maent hefyd yn hwyluso Grŵp Uwch Swyddogion Nam ar y Synhwyrâu GIG Cymru ac yn cefnogi'r ymgyrch flynyddol 'Mae'n Gwneud Synnwyr' i godi ymwybyddiaeth o anghenion cyfathrebu a'r Safonau Cymru Gyfan ar gyfer dulliau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrâu. Yn ogystal, gweithiodd y tîm â Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Graz ar yr adroddiad Iechyd a Llesiant ar gyfer Cymunedau Byddar yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019 ac a lansiwyd yn y gynhadledd Mae'n Gwneud Synnwyr.



6.2 Cysylltu â Chymunedau Ethnig Lleiafrifol

6.2.1 Ymgyrch y Ffliw

Fel rhan o ymgyrch y fflw 2019–20, gwnaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy greu pamffled ar sawl ffurf ac mewn gwahanol ieithoedd yn amlinellu'r hawl am frechiad y fflw. Roedd y taflenni ar gael ar www.curwchffliw.org a www.beatflu.org yn yr ieithoedd canlynol: Albaneg, Amhareg, Arabeg, Bengaleg, Cantoneg, Tsieceg, Dari, Ffarsi, Ffrangeg, Hindi, Soraneg, Cwrdeg, Mandarin, Pwyleg, Portiwgaleg, Pwnjabeg Indiaidd, Pwnjabeg Pacistanaidd, Tigrinia ac Wrddw.

Yn 2019–20, gwnaeth y rhaglen fflw hefyd gyflwyno peilot iaith leiafrifol i elfen plant y rhaglen fflw. Roedd hyn yn cynnwys darparu tair dogfen 'Ffurflen Gydsynio Fflw Plant – Tempeld', 'Llythyr i rieni – Tempeld' a 'Taflen wybodaeth cwestiynau ac atebion cyffredin' mewn 25 iaith leiafrifol. Gwnaeth pedwar allan o saith Bwrdd Iechyd adrodd am ddefnyddio'r adnoddau aml-iaith, a Phwyleg oedd yr iaith fwyaf poblogaidd. Defnyddiodd un Bwrdd Iechyd 25 iaith yn helaeth a chyflwynodd dros 100 o adnoddau ym mhob un o'r ieithoedd canlynol: Bengali, Pwyleg, Pwnjabeg Pacistanaidd a Rwmaneg.

6.2.2 Cymorth Rhoi'r Gorau i Ysmygu mewn Ieithoedd Lleiafrifol

Mae adnoddau rhoi'r gorau i ysmygu Helpa Fi i Stopio hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys Somali, Sorani, Tsieceg, Ffarsi, Bwlgareg, Albaneg, Sbaeneg, Slofaceg a Bengaleg.

6.2.3 Cynyddu'r nifer sy'n derbyn sgrinio'r coluddyn yn Iechyd y Ddinas

Mae tystiolaeth gref yn dangos pan fydd timau gofal sylfaenol yn ymgysylltu â'r rhai nad ydynt yn ymateb, mae'n cynyddu'r niferoedd sydd wedyn yn penderfynu ymgysylltu â'r rhaglen sgrinio'r coluddyn. Dyluniwyd rôl swyddog cymorth Gofal Sylfaenol sgrinio'r coluddyn i gefnogi timau gofal sylfaenol yn eu hymdrechion.

Hyd yn hyn, mae'r swyddog cymorth gofal sylfaenol wedi profi'r model am gyfnod o 3 mis yn y clwstwr Iechyd y Ddinas yn Abertawe, gan anfon llythyrau ardystiedig gan Feddygon Teulu ar ran practisiau a gwneud galwadau ffôn dilynol i'r rhai na wnaethant ymgysylltu â'r rhaglen sgrinio. Mae gan Iechyd y Ddinas boblogaeth BAME uchel a rhai o'r cyfraddau mynychu isaf yng Nghymru. Gwnaeth yr ymyrraeth gynyddu ymgysylltiad â'r rhaglen 31% yn ystod y cyfnod peilot.

Mae tystiolaeth gref yn dangos pan fydd timau gofal sylfaenol yn ymgysylltu â'r rhai nad ydynt yn ymateb, mae'n cynyddu'r niferoedd sydd wedyn yn penderfynu ymgysylltu â'r rhaglen sgrinio'r coluddyn. Dyluniwyd rôl swyddog cymorth Gofal Sylfaenol sgrinio'r coluddyn i gefnogi timau gofal sylfaenol yn eu hymdrechion.

Hyd yn hyn, mae'r swyddog cymorth gofal sylfaenol wedi profi'r model am gyfnod o 3 mis yn y clwstwr Iechyd y Ddinas yn Abertawe, gan anfon llythyrau ardystiedig gan Feddygon Teulu ar ran practisiau a gwneud galwadau ffôn dilynol i'r rhai na wnaethant ymgysylltu â'r rhaglen sgrinio. Mae gan Iechyd y Ddinas boblogaeth BAME uchel a rhai o'r cyfraddau mynychu isaf yng Nghymru. Gwnaeth yr ymyrraeth gynyddu ymgysylltiad â'r rhaglen 31% yn ystod y cyfnod peilot.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd wedi ymrwymo i ddarparu ymyrraethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella'r nifer sy'n mynd i brofion sgrinio'r coluddyn yn eu clystyrau gyda'r lefelau sgrinio isaf. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i dargedu mewn ardaloedd â chymunedau BAME dwys. Mae'r Is-adran Sgrinio yn cefnogi clystyrau i gyflawni'r gwaith hwn ar lefel gofal sylfaenol a chymunedol.

6.2.4 Women Connect First – Addysg yn y Gymuned

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn parhau i gydweithio â Women Connect First yn Ne-ddwyrain Cymru i gynyddu gwybodaeth ac addysg am sgrinio yn y gymuned BAME. Mae nifer o sesiynau addysgu yn y gymuned wedi'u cynnal â menywod o'r gymuned leol, ac mae rhagor o waith wedi'i gynllunio.

6.2.5 Rhwystrau i Sgrinio – Y Gymuned Bwylaidd

Mae gwaith dirnadaeth wedi'i gwblhau gyda'r gymuned Bwylaidd yng Ngogledd Cymru. Cynhaliwyd grwpiau ffocws i nodi rhwystrau i sgrinio ac anghenion y gymuned leol. Mae'r sylwadau wedi helpu i lywio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i anelu at y gymuned hon.

6.2.6 Astudiaeth Ymchwil ar Atal Canser – Y Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio wedi bod yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, sy'n mynd i'r afael â phrosiect ymchwil sy'n canolbwyntio ar atal canser o fewn y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd yr astudiaeth ymchwil ansoddol hon yn hysbysu darparwyr iechyd am ymyrraethau posibl y gellir eu defnyddio i sefydlu ymgysylltu gwell â'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

6.2.7 Hyfforddiant Ymyrraeth Fer ar gyfer Sgrinio

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio wedi datblygu pecyn hyfforddiant ymyrraeth fer i helpu i godi ymwybyddiaeth o sgrinio. Mae'r hyfforddiant wedi'i anelu at weithwyr yn y gymuned sy'n cefnogi pobl o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru a'r rhai â nodweddion gwarchodedig. Bydd yr hyfforddiant yn rhoi gwybodaeth am sgrinio i weithwyr allweddol a bydd yn eu galluogi i gael sgysiau ystyrlon ac i gynnig cymorth ar sgrinio yn eu cymunedau.




6.2.8 Profiadau Iechyd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yng Nghymru

Mae'r astudiaeth hon yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwybodaeth am brofiadau ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n oedolion yng Nghymru o wasanaethau iechyd, er mwyn llywio polisi ac ymarfer, gyda'r nod o wireddu uchelgais Cymru o ddod yn Genedl Noddfa, a chefnogi iechyd i bawb, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

I gefnogi gwell ymgysylltu â gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, gweithiodd y Tîm Ymgysylltu a Chydweithio â sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n ceisio noddfa (ceiswyr lloches a ffoaduriaid) ac unigolion BAME, gan gynnwys Oasis Cymru a Diverse Cymru.

6.2.9 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ymysg ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n blant

Datblygwyd yr adroddiad hwn yn ystod 2019-20 ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig at ddeall y ffyrdd y mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn effeithio ar Geiswyr Noddfa ifanc. Mae'r canfyddiadau llwm a gasglwyd yn yr adroddiad hwn yn pwysleisio'r angen i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn wybodus ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma. Bydd hyn yn eu galluogi i ystyried y camau y mae angen iddynt eu cymryd i ddatblygu dull ymatebol i drawma wrth ddarparu eu gwasanaethau.



6.3 Gwella Iechyd yn ystod Beichiogrwydd a chynod Mamolaeth

6.3.1 Helpa Fi i Stopio i Fy Mabi (HMQfB)

Mae Helpa Fi i Stopio i Fy Mabi yn Wasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Mamolaeth (MSCS) i ysmygwyr beichiog a'u teuluoedd yng Ngogledd Cymru. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu gan Weithwyr Cymorth Rhoi'r Gorau i Ysmygu arbenigol, sydd wrth wraidd gwasanaethau gofal cyn geni. Mae'r gwasanaeth yn anelu at roi'r cymorth sydd ei angen ar ysmygwyr beichiog a'u teuluoedd, er mwyn eu helpu i roi'r gorau i ysmegu. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn 2019 i asesu effaith y gwasanaeth mewn perthynas â'r holl grwpiau â nodweddion gwarchodedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn deg ac nad yw'n gwahaniaethu. Yn seiliedig ar argymhellion yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu wedyn, a arweiniodd at y canlynol:

- Estynnwyd rhai o'r meini prawf cynnwys ar gyfer y gwasanaeth i sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i'r holl ysmygwyr beichiog
- Derbyniodd yr holl staff a oedd newydd gael eu recriwtio hyfforddiant ymwybyddiaeth o bobl drawsryweddol a nam ar y synhwyrau
- Datblygwyd taflen wybodaeth hawdd ei darllen ddwyieithog ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.



6.3.2 Gwasanaethau Mamolaeth ac Ymgyrch y Ffliw

Gwnaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP) greu taflenni a phosteri y mae'r gwasanaethau mamolaeth yn eu defnyddio mewn clinigau trefnu apwyntiadau cyn geni a chlinigau cyn geni i godi ymwybyddiaeth o fuddiannau brechlynnau'r fflw a phertwsis i fenywod beichiog. Roedd y taflenni hyn ar gael yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gwnaeth VPDP hefyd ddatblygu sticeri dwyieithog yn tynnu sylw at frechlynnau'r fflw a phertwsis i'w defnyddio ar nodiadau papur a gedwir gan y cleifion er mwyn hyrwyddo'r brechlynnau hyn.

Gwnaeth VPDP hefyd gynnal arolwg Man Darparu dros gyfnod o bum niwrnod ym mis Ionawr 2020. Pwrpas yr arolwg oedd monitro faint o fenywod beichiog a oedd yn cofio cael cynnig brechlynnau'r fflw a phertwsis yn ystod beichiogrwydd yn ogystal â faint o fenywod a dderbyniodd y cynnig hwnnw.

Yn 2019, cynhyrchwyd taflen feichiogrwydd newydd 'Sut i'ch diogelu chi a'ch babi' hefyd.

6.3.3 Arolwg o Wybodaeth i'r Cyhoedd – Syndrom Down, Syndrom Edwards, Syndrom Patau

Cwblhaodd Sgrinio Cyn Geni Cymru adolygiad o'u gwybodaeth i'r cyhoedd am Syndrom Down, Syndrom Edwards a Syndrom Patau. Mae'r wybodaeth hon ar gael i fenywod beichiog yng Nghymru ac mae'n ceisio'u cynorthwyo wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â pha brofion sgrinio cyn geni i'w cael. Yn dilyn y grwpiau ffocws, gwnaed rhai newidiadau bychain i wybodaeth y cyhoedd.

6.4 Cael gwared ar rwystrau i bobl LHDT+


6.4.1 Stonewall

Unwaith eto, cymerodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ran ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Daethom yn 100fed allan o'r 503 sefydliad a oedd yn cymryd rhan yn genedlaethol. Mae hyn yn naid o 73 safle ers y llynedd. Mae hyn yn golygu ein bod wedi'n cynnwys yn y 100 uchaf ar restr Cyflogwyr Gorau'r DU am y tro cyntaf. Mae hyn yn nodi'n glir y cynnydd a wnaed gennym.

Mae cymryd rhan yn yr ymarfer meincnodi hwn wedi helpu i nodi ble y gallwn wella, ac rydym yn parhau i weithio drwy'r cynllun gweithredu sydd wedi'i ddatblygu i alluogi hyn. Rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar hyn yn y blynyddoedd i ddod.

6.4.2 Pride

Gwnaeth y sefydliad fynychu digwyddiadau Pride yn Abertawe, Llanelli a Chaerdydd hefyd gan roi gwybodaeth am Wasanaethau Sgrinio, Helpa Fi i Stopio a rhaglenni brechu. Mae'r rhain wedi rhoi cyfleoedd pwysig i ymgysylltu â'r Gymuned LHDT+.



6.5 Sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cyrraedd pobl drawsryweddol

6.5.1 Rhaglen y Feirws Papiloma Dynol (HPV)

O 2008, dim ond merched yr oedd y rhaglen HPV yn yr ysgol yn eu cynnwys, a'i nod oedd diogelu yn erbyn yr haint HPV a chanserau cysylltiedig; yn benodol canser ceg y groth. Yn 2019-20, cyflwynwyd brechlyn HPV cyffredinol yn y rhaglen frechu HPV – gan ehangu'r rhaglen i gynnwys bechgyn ym mlynnyddoedd ysgol 8 a 9. Bydd y rhaglen newydd hon bellach yn caniatáu i'r disgyblion hynny sy'n trawsnewid gael mynediad cyfartal at y brechlyn wrth gadw eu hurddas a'u preifatrwydd yn lleoliad brechu'r ysgol a hyd at 25 mlwydd oed.

6.5.2 Adolygiad o Wybodaeth i'r Cyhoedd – Trawsryweddol

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn arwain adolygiad o'r adnoddau gwybodaeth am faterion trawsryweddol yn seiliedig ar sgrinio. Caiff adolygiad ymgysylltu ei gynnal gyda phobl o'r gymuned drawsryweddol. Bydd datblygiad yr adnodd newydd ar gael yn ddiweddarach yn 2020.

6.5.3 Adolygiad o Wybodaeth Sgrinio Serfigol Cymru

Mae Sgrinio Serfigol Cymru wedi cynnal adolygiad o'u gwybodaeth am wahodd unigolion i sicrhau ei bod yn gynhwysol i bobl sy'n ystyried eu hunain yn anneauidd ac i bobl sy'n mynd drwy broses ailbennu rhywedd. Rydym yn gweithio tuag at gael gwared ar gyfeiriadau sy'n benodol i rywedd, gan ddisodli'r rhain â therminoleg niwtral o ran rhywedd drwy ddiffinio meini prawf cymhwysedd fel unrhyw un â cheg y groth.

6.6 Supporting health in all age groups of our populace

6.6.1 Y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy

Fel rhan o ymgyrch y fflw 2019-20, canolbwyntiodd y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP) am bythefnos ar gyfathrebu â phobl sy'n 65 mlwydd oed a hŷn. Mewn pythefnos gwahanol, canolbwyntiodd ymgyrch y fflw ar gyfathrebu â rhieni plant rhwng 2 a 10 mlwydd oed.

Gwnaeth epidemiolegwyr y Tîm Gwyliadwriaeth a dadansoddwyr gwybodaeth fonitro'r nifer a gafodd frechiad y fflw ar gyfer y grwpiau oedran gwahanol hyn ac adrodd ar y ffigurau bob wythnos.

Yn ogystal â monitro brechiad y fflw mewn grwpiau oedran penodol, gwnaeth y tîm gwyliadwriaeth hefyd fonitro'r nifer a gafodd frechiad yr eryr mewn cleifion cymwys dros 70 oed, a chleifion niwmococol cymwys

dros 65 oed. Gwnaeth y tîm hefyd fonitro imiwneiddio plant trwy gydol y flwyddyn a chyhoeddi'r data am y nifer a gafodd eu himiwneiddio yn chwarterol a chyhoeddi adroddiadau COVER blynyddol.

Yn ystod gwyliau'r ysgol ym mis Gorffennaf ac Awst 2019, comisiynodd y rhaglen BMG Research i gynnal ymchwiliad agweddau yn ymwneud ag agweddau pobl yn eu harddegau at frechlynnau. Roedd canfyddiadau allweddol yr adroddiad yn dangos bod 93% o bobl yn eu harddegau yn datgan ei bod yn bwysig cael brechlynnau, a bod 90% o bobl yn eu harddegau yn ymddiried mewn brechlynnau. Canfu'r arolwg hefyd fod 87% o bobl yn eu harddegau yn credu bod brechlynnau yn ddiogel, a bod 69% o bobl yn eu harddegau yn credu bod risg is ynghlwm wrth gael y brechlyn na chael y clefyd cysylltiedig.

Ym mis Awst 2019, ysgrifennodd VPDP at brifysgolion yng Nghymru i ofyn iddynt atgoffa'u myfyrwyr i wirio eu bod wedi cael pob brechlyn gofynnol – yn enwedig MenACWY (Meningitis) ac MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbel). Roedd y llythyr yn cyfeirio at adnoddau a gwybodaeth Galw Iechyd Cymru, gyda'r nod o ddiogelu pobl ifanc rhag clefydau ataliadwy.


Gwnaeth y rhaglen hefyd gydweithio ag adran Gyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru i redeg ymgyrch ddwy-don ar y cyfryngau cymdeithasol, sef "yn ôl i'r ysgol" ac "yn ôl i'r brifysgol" i bobl yn eu harddegau a phobl ifanc. Prif ffocws yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol hon oedd annog rhieni i wirio bod eu plant yn gyfredol o ran eu brechlynnau arferol, gan gynnwys MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbel) a phigiadau atgyfnerthu'r ysgol. Rhedodd hyn o 23 Awst i 13 Medi 2019.

6.6.2 Trais Difrifol ymysg Pobl Ifanc yn Ne Cymru: Asesiad Anghenion Strategol

Mae hwn yn cynnig crynodeb o'r prif bwyntiau, a nodwyd drwy'r Asesiad Anghenion a gwblhawyd gan Uned Atal Trais Cymru. Mae'n rhoi dealltwriaeth o lefel y trais difrifol yng Nghymru, mae'n nodi ffactorau risg ac amddiffynnol trais difrifol ac mae'n cydnabod cost trais i'r system gofal iechyd yng Nghymru

6.6.3 Hunan-atgyfeiriadau Ymlediadau Aortig Abdomenol (AAA) mewn carchardai

Cyflwynodd Rhaglen AAA Cymru hunan-atgyfeiriadau mewn carchardai, h.y. bydd unrhyw garcharor sydd dros 65 mlwydd oed ac sydd erioed wedi cael sgan i sgrinio am AAA yn y GIG yn cael cynnig apwyntiad.





Yn 2019, rhedodd Sgrinio Serfigol Cymru ymgyrch cyfryngau cymdeithasol o'r enw **#loveyourcervix** i godi ymwybyddiaeth ymysg menywod 25–29 mlwydd oed o bwysigrwydd mynd i brawf sgrinio serfigol.

6.6.4 Ymestyn Oedran Sgrinio'r Coluddyn

Roedd Sgrinio Coluddion Cymru i fod i ddechrau'r gwaith o optimeiddio'r rhaglen yn raddol ym mis Ebrill 2020, gan leihau oedran y rhai a gaiff eu gwahodd i sgrinio i 55 mlwydd oed. Oherwydd pandemig y Coronafeirws, mae'r cynllun optimeiddio wedi'i oedi. Mae'r rhaglen yn aros am drafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru i newid proffil y cynllun hwn.

6.6.5 Ymgyrch Sgrinio am Oes

Gwnaeth yr Is-adran Sgrinio gynnal ei hymgyrch cyfryngau cymdeithasol Sgrinio am Oes yn ystod mis Gorffennaf. Roedd yr ymgyrch hon yn targedu pobl oedd yn cael mynediad at sgrinio am y tro cyntaf. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod unigolion sy'n cael eu gwahodd i fynd i gael eu sgrinio yn fwy tebygol o fynd eto pan fyddan nhw'n cael eu gwahodd. Defnyddiwyd optimeiddio ar Facebook i dargedu grwpiau oedran penodol mewn ardaloedd daearyddol lle mae'r nifer sy'n cael eu sgrinio yn isel. Datblygwyd a rhannwyd ffilmiau i gyfranogwyr a oedd yn ceisio codi ymwybyddiaeth a helpu i oresgyn teimladau o ofn a chywilydd y gallai pobl fod yn eu profi wrth fynd i apwyntiad sgrinio neu wrth gymryd rhan mewn un am y tro cyntaf.

At ei gilydd, gwnaeth 400,000 o ddefnyddwyr ymgysylltu â'r ymgyrch yn ystod y mis hwn.

6.6.6 Rhaglen addysgiadol pontio'r cenedlaethau


Mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu a threialu rhaglen ar gyfer plant rhwng 11 a 18 mlwydd oed, sy'n rhoi cyfle i ddysgu am ganer y coluddyn a sgrinio'r coluddyn ynghyd ag Ysgol Uwchradd Pontypridd. Cafodd disgyblion eu trochi mewn profiad dysgu rhyngweithiol, yn rhan o'r prosiect a ariannwyd gan Moondance Foundation. Gwnaeth hyn eu galluogi i wyllo llawdriniaeth fyw ar ganer y coluddyn a llunio strategaethau i gynyddu'r nifer sy'n mynd i apwyntiadau sgrinio yn lleol. Gorffennodd y treial â digwyddiad byw a gafodd ei arwain gan y disgyblion yn yr ysgol ar 9 Gorffennaf 2019, lle gwnaethant ddangos yr hyn a ddysgwyd ganddynt i rieni, llywodraethwyr a gwesteion eraill a gafodd eu gwahodd. Yn y digwyddiad byw, gwelwyd arddangosiad cyntaf ffilm a grëwyd gan y disgyblion, a oedd yn dogfennu eu taith drwy'r peilot a pha mor bwysig ydoedd i bobl gymwys gymryd rhan yn rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru. Mae'r treial wedi hwyluso cydweithrediaethau newydd rhwng sectorau er mwyn rhannu a gwella arbenigedd i'r eithaf, ac mae wedi cynnig profiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen mewn unrhyw amgylchedd ysgol uwchradd.

6.6.7 Ymgyrch #loveyourcervix Sgrinio Serfigol

Yn 2019, rhedodd Sgrinio Serfigol Cymru ymgyrch cyfryngau cymdeithasol o'r enw #loveyourcervix i godi ymwybyddiaeth ymysg menywod 25-29 mlwydd oed o bwysigrwydd mynd i brawf sgrinio serfigol. Gwnaeth cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol ganolbwyntio ar fynd i'r afael â chywilydd, ofn a chodi ymwybyddiaeth, sydd yn aml yn rhesymau pam nad yw menywod yn mynd i'w hapwyntiadau. Gwnaeth dadansoddiad ddangos lefel uchel o ymgysylltiad, gyda dros 350,000 o argraffiadau ar Facebook. Gwnaeth y cwrpas gynyddu ychydig ymysg y grŵp oedran hwnnw yn ystod y misoedd yn dilyn yr ymgyrch, a oedd yn ganlyniad cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, roedd pandemig y Coronafeirws wedyn yn golygu bod yn rhaid oedi gwahoddiadau, ac felly bu'n fwy heriol asesu'r effaith ymhellach.

6.6.8 Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Mae'r gwaith i ymgysylltu â phobl ifanc yn parhau, ac arweiniodd Uwchgynhadledd Ieuentid y Llynedd at gysylltiadau pellach â sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc nad ydynt yn cael eu clywed yn aml. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio gyda Barnado's, St John Ambulance Cymru, Plant yng Nghymru, fforymau pobl ifanc awdurdodau lleol a TGP Cymru. Yn ogystal, gwnaethom fynd i gynadleddau a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc drwy gydol y flwyddyn er mwyn gwella ymgysylltu. Mae Rhaglen Llysgenhaddon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i dyfu, ac mae awdurdodau lleol newydd yn ymuno. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddylanwadu ar waith Iechyd Cyhoeddus Cymru a thynnu sylw at faterion sy'n bwysig iddynt. Gwnaeth yr Uwchgynadleddau Iechyd Ieuentid Blynyddol, a gafodd eu cynnal yng Ngogledd Cymru a De Cymru ym mis Rhagfyr 2019, ddenu dros 120 o bobl ifanc o 8 i 25 mlwydd oed.



Gwnaeth Sgrinio Coluddion Cymru a Bowel Cancer UK redeg ymgyrch sgrinio'r coluddyn wedi'i thargeddu at ddynion rhwng 60 a 64 mlwydd oed.

6.7 Darparu Ymyriadau Iechyd Priodol

6.7.1 Rhaglen Frechu Feirws Papiloma Dynol (HPV)

Yn 2019-20, cyflwynwyd brechlyn HPV cyffredinol yn y rhaglen frechu HPV – gan ehangu'r rhaglen i gynnwys bechgyn ym mlynnyddoedd ysgol 8 a 9. Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) gynghori y gellid ehangu'r rhaglen frechu HPV presennol ar gyfer merched i fechgyn yn eu harddegau hefyd. O ganlyniad i gyngor JCVI, cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2018 y byddai'r rhaglen frechu HPV genedlaethol yn cael ei hehangu i gynnwys bechgyn yn eu harddegau. Yn ogystal â rhoi amddiffyniad unigol i ddynion rhag defaid y genitalia a'r anws a chanserau sy'n gysylltiedig â HPV nad ydynt yn ymwneud â cheg y groth, dylai'r brechlyn ychwanegu gwytnwch i raglen y DU, cyflymu rheolaeth cancer ceg y groth ymysg menywod a chynnig y posibilrwydd o gael gwared ar fathau o frechlynnau HPV yn y DU. Yn ogystal, bydd y rhaglen yn sicrhau amddiffyniad torfol ymysg y boblogaeth o ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion (MSM) yn y pen draw.


6.7.2 Ymgyrch Hysbysebu Sgrinio'r Coluddyn yn y Cyfryngau

Gwnaeth Sgrinio Coluddion Cymru a Bowel Cancer UK redeg ymgyrch sgrinio'r coluddyn wedi'i thargeddu at ddynion rhwng 60 a 64 mlwydd oed. Yn rhan o hyn, cafodd ymgyrch farchnata ddwyieithog ei rhedeg yn cynnwys Jamie Roberts, cyn chwaraewr rygbi

rhyngwladol dros Gymru a'r Llewod. Roedd lansiad yr ymgyrch yn cyd-fynd â thwrnament rygbi'r Chwe Gwlad er mwyn manteisio i'r eithaf ar gefnogaeth Jamie Roberts a chanolbwyntio ar gynyddu'r nifer a oedd yn cael profion imiwnogemegol ysgarthol (FIT). Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebu ar y teledu, ar ITV, S4C a Sky Ad-smart, hysbysebion cyfryngau cymdeithasol a digidol y talwyd amdanynt, hysbysebion y talwyd amdanynt mewn papurau newydd lleol, taflen a phoster a chynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid llawr gwlad. Cafodd yr ymgyrch ei chefnogi gan alw am weithredu 'Gwnewch y prawf', a ddefnyddiwyd fel hashnod i gefnogi ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol.

6.7.3 Menter Allgymorth Cymunedol Sgrinio Coluddion Cymru/Bowel Cancer UK yn Nwyrain Casnewydd/Canol Casnewydd


Yn rhan o'u portffolio gwella, defnyddiodd Sgrinio Coluddion Cymru ran o'u cyllid gan Moondance Foundation i gydweithio â Bowel Cancer UK i brofi effaith ymgysylltu â'r gymuned wrth godi ymwybyddiaeth o sgrinio'r coluddyn a symptomau cancer y coluddyn. Mae'r treial yn anelu at ddatblygu a darparu mecanweithiau mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig ymysg y cymunedau mwyaf difreintiedig, lle mae tystiolaeth gan ddata clystyrau meddygon teulu yn dangos bod nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio yn is nag mewn ardaloedd llai difreintiedig. Y gynulleidfa darged yw'r cyfranogwyr oedran sgrinio presennol, sef 60–74 mlwydd oed.



07. Gwaith Arall i Wella Cydraddoldeb

Yn ogystal â mynd i'r afael â'r nodweddion gwarchodedig, cyflawnwyd rhagor o waith i wella cydraddoldeb. Caiff hyn ei ddangos isod.

7.1 Strategaeth Alcohol Gogledd Cymru



Mae Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru, 'Galw Amser Newid' wedi'i chynhyrchu ar ran Bwrdd Partneriaeth yr Ardal, gan gydweithio â phartneriaid ar draws y rhanbarth. Dyma'r un gyntaf sydd wedi'i chreu ar gyfer Gogledd Cymru ac mae'n adeiladu ar Asesiad o Anghenion ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru ac mae'n cyd-fynd â Chynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 2019-2022, sy'n ceisio lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, i'r unigolyn ac i'r gymdeithas ehangach. Nod y strategaeth yw lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy:

- Hyrwyddo ymagwedd ddiogel a synhwyrol at yfed alcohol
- Amddiffyn teuluoedd a'r cymunedau ehangach rhag effeithiau andwyol alcohol

- Lleihau effaith niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol
- Meithrin perthnasoedd gwaith a llwybrau atgyfeirio cadarn rhwng darparwyr gwasanaeth.s.

Nid oes unrhyw sefydliad unigol mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â holl effeithiau niweidiol alcohol. Mae'r strategaeth yn amlinellu ymrwymiad partneriaeth i leihau niweidiau camddefnyddio alcohol dros y 5 mlynedd nesaf, a bydd gofyn am ymagwedd gydweithredol ar draws y rhanbarth wrth fynd i'r afael â materion lleol. Bydd y strategaeth yn sail i ddatblygu Cynllun Gweithredu, sy'n nodi'n glir y camau i'w cymryd gan sefydliadau partner.

Gan gydnabod lled y strategaeth, ei natur drawsbynciol ar draws holl elfennau cymdeithas, a chyfranogiad nifer o sefydliadau, gan gynnwys partneriaid y sector cyhoeddus, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy ddefnyddio fframwaith Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod yr hydref 2019. Amlygodd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb nifer o feysydd y bydd angen mewnbwn pellach arnynt i sicrhau bod y Strategaeth yn hygyrch i bawb sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

Roedd cynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn sicrhau gwerthfawrogiad ehangach o nodweddion gwarchodedig ar draws sefydliadau partner ac arweiniodd hyn at gynhyrchu Strategaeth Alcohol ddwyieithog, defnydd helaeth o ffeithluniau, cynrychioliadau ar ffurf llun a chyflwyniadau PowerPoint dwyieithog i helpu i godi ymwybyddiaeth eang o'r Strategaeth Alcohol. Amlygwyd angen penodol i ganolbwyntio ar gyfathrebu yn y gymuned LHDT. Roedd yr holl argymhellion hyn yn ymwneud â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan annatod o'r cynllun Gweithredu ar Alcohol dilynol, a gafodd ei ddatblygu i weithredu'r strategaeth.



7.2 Gweithdy Sgrinio mewn Carchardai

Cynhaliodd y gweithgor Carchardai a Gofal Hirdymor ddigwyddiad ymgysylltu lle gwahoddwyd yr holl garchardai ledled Cymru i fynychu. Cafodd y gweithdy hwn ei hwyluso gan y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio. Datblygwyd adroddiad a chynllun gweithredu ategol a chânt eu hystyried gan y gweithgor.

7.3 Diweddarau Llythyrau i Gyfranogwyr Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW)

Mae'r holl lythyrau i gyfranogwyr yn DESW wedi'u diweddarau yn dilyn ymgysylltu helaeth â defnyddwyr gwasanaeth, a chyflawnodd yr ohebiaeth newydd Farc Crisial ar gyfer 'Plain English' i helpu cyfranogwyr i ddeall. Aeth y llythyrau gwahoddiad newydd yn fyw ym mis Mehefin 2019, ac roedd y llythyrau a oedd yn weddill yn barod i'w lansio yn 2020 yn dilyn newidiadau i raglen y system TG.

7.4 Gwaith gyda Phersonél y Lluoedd Arfog

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflogi personél y Lluoedd Arfog, Cyn-filwyr a'r rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wnaed gan y bobl sydd wedi gadael y gwasanaeth milwrol yn ogystal â'u teuluoedd drwy hyrwyddo'r nifer o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn lechyd Cyhoeddus Cymru i'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Yn ddiweddar, cafodd lechyd Cyhoeddus Cymru gydnabyddiaeth am y cymorth rhagorol a roddir i gymuned y Lluoedd Arfog a dyfarnwyd gwobr Aur iddynt yng Ngwobrau'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn (ERS).

7.5 Prosiect CYFALAF

Ym mis Mai 2019, lansiodd lechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â'u partneriaid Tai Pawb a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, y prosiect CYFALAF, a ariannwyd gan The Health Foundation. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â phenderfyniadau ehangach iechyd, sef 'cymunedau cysylltiedig'. Gan gydnabod bod lefelau cyfalaf cymdeithasol (cysylltiadau rhwng pobl o gefndiroedd tebyg, cefndiroedd gwahanol ac mewn swyddi o wahanol rymoedd) yn isel ymysg y rhai sy'n ceisio noddfa ac, mewn nifer o achosion, ymysg pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, mae'r prosiect yn gweithio i ddod â phobl ynghyd ar gyfer achos hunan-ddynodedig cyffredin i adeiladu cyfalaf cymdeithasol ac i gael effaith gadarnhaol ar lechyd a llesiant. Bydd y prosiect yn dod i ben ym mis Mawrth 2021 a bydd yn cynhyrchu adnoddau i gefnogi llunwyr polisi a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ymgysylltu a chyd-gynhyrchu'n effeithiol â'r rhai mewn cymunedau sydd mewn perygl o allgau cymdeithasol.

7.6 Cefnogi Ffrydiau Gwaith Sefydliadol a Chenedlaethol

Mae Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd yn mynychu ac yn cyfrannu at nifer o ffrydiau gwaith sefydliadol a chenedlaethol, gan gynnwys y canlynol:

- Gwella gweithdrefnau cydsynio

Mae grŵp cydsynio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adolygu'r polisi cydsynio cyfredol, ac mae cynlluniau i fabwysiadu Canllawiau Cydsynio Llywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad neu driniaeth, gyda gweithdrefn lechyd Cyhoeddus Cymru yn eu hategu. Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt â Chronfa Risg Cymru ynghylch sut y gall lechyd Cyhoeddus Cymru wella'r ffordd y mae'n mynd i'r afael â phenderfyniadau er budd gorau gyda chyfranogwyr sgrinio. Cynhelir archwiliad llinell sylfaen o'r prosesau cydsynio cyfredol, a gaiff ei ailadrodd unwaith y bydd y polisi newydd ar waith. Rhagwelir y bydd y diwygiadau hyn yn arwain at welliannau sylweddol ar gyfer cyfranogwyr sgrinio, gan alluogi'r rhai nad ydynt yn gallu rhoi cydsyniad gwybodus i gael mynediad at sgrinio mewn modd amserol.


7.7 Cyhoeddiadau

Cyhoeddodd Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd yr adroddiadau canlynol:

Gwneud Gwahaniaeth – Tai ac Iechyd: Mae'r **Achos Dros Fuddsoddi** yn pwysleisio'r effaith y mae tai o ansawdd gwael yn ei chael ar ein hiechyd a'n gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n dangos pwysigrwydd hanfodol tai o ansawdd da ar lechyd a llesiant ac effaith hyn ar draws y cwrs bywyd.

Mae **Cost Tai Gwael yng Nghymru** yn edrych yn ofalus ar y cysylltiadau rhwng amodau tai gwael, sef 'peryglon yn y cartref' yn yr achos hwn, a'u heffaith ar lechyd a llesiant a'r gost i'r GIG ac i'r gymdeithas ehangach. Mae'n ychwanegu at y canfyddiadau yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ynghynt, sef Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos Dros Fuddsoddi*, ac mae hefyd yn adeiladu ar gyhoeddiadau blaenorol gan BRE Trust a Shelter.

Mae **Hybu Ffyniant i Bawb Drwy Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant** yn ganllaw tystiolaeth a ddefnyddir i hyrwyddo cyfiawnder yng Nghymru drwy lywio a chefnogi penderfyniadau a pholisïau ac i ymuno ag ymrwymiad a chmau gweithredu Cymru gyfan i sicrhau newid cadarnhaol tuag at ddyfodol mwy iach, hapus a ffyniannus i bawb yng Nghymru.



Mesur graddau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwr

drwy deilwra holiaduron cyfredol ar ACEs a ddefnyddiwyd yn arolwg ACEs Carcharorion 2018. Caiff yr holiadur ei ddarparu gan aelodau o'r tîm ymchwil i droseddwr cymwys. Mae'r Prosiect Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn brosiect dwy flynedd a ariennir drwy Gronfa Arloesi'r Heddlu sy'n anelu at dorri cylchoedd o drosedd a thrais yn ymwneud â'r cenedlaethau. Bydd yr ymchwil hefyd yn archwilio'r ddealltwriaeth o ACEs ymysg y gweithlu cyfiawnder troseddol drwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb â staff carchardai.

Gwnaeth **Deall cyfraddau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwr gwrywaidd yng Nghymru: Arolwg ACEs Carcharorion** gyfnewid â 468 o oedolion (rhwng 18 a 69 mlwydd oed) mewn carchar yng Nghymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2018. Gofynnwyd i gyfranogwyr am eu cysylltiad ag 11 ACEs, eu hanes o droseddu a'r rhan y gwnaethant ei chwarae mewn trais yn ddiweddar. Roedd yr Arolwg ACEs Carcharorion yn anelu at fesur mynychder ACEs ymysg poblogaeth o droseddwr ac archwilio unrhyw gysylltiadau rhwng ACEs a mathau o droseddau. Roedd yr arolwg hefyd yn anelu at ymchwilio i'r cysylltiad rhwng ACEs a throseddu. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r arolwg ar 29 Ebrill 2019.

Mae'r adroddiad **Gamblo fel mater iechyd cyhoeddus yng Nghymru** yn nodi rhai grwpiau agored i niwed allweddol sy'n agored i niweidiau gamblo:

- Plant
- Myfyrwyr
- Menywod
- Lleiafrifoedd Ethnig
- Mewnffudwyr
- Y digartref
- Y rhai sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig
- Ymddygiadau llai iach (ymddygiad llonydd, yfed llawer o alcohol yn barhaus/mewn modd afreolaidd, ysmegu)
- Yn ddifreintiedig yn economaidd.

Mae'r adroddiad **Gwella iechyd a llesiant yn ystod y gaeaf a lleihau pwysau'r gaeaf yng Nghymru** yn amlygu'r ymyrraethau i wella iechyd a llesiant yn ystod y gaeaf ar gyfer y grwpiau agored i niwed allweddol canlynol:

- Oed hŷn (65+ mlwydd oed, ond yn enwedig 85+ mlwydd oed)
- Clefydau cronig presennol
- Beichiogrwydd
- Yn byw mewn ardal ddifreintiedig
- Ymddygiadau llai iach (ymddygiad llonydd, yfed llawer o alcohol yn barhaus/mewn modd afreolaidd, ysmegu)
- Tlodi tanwydd
- Yn byw mewn tai oer
- Y digartref
- Yn ynysig yn gymdeithasol.

Mae **Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd** yn amlygu sut mae'n rhaid i iechyd corfforol a meddyliol y bobl fwyaf tlawd, y rhai sydd â chymwysterau addysgiadol is, y rhai sydd wedi'u cyflogi mewn sectorau amaethyddol a gweithgynhyrchu sy'n agored i Brexit a'r rhai y mae angen iechyd a gofal cymdeithasol arnynt fod yn ystyriaethau pwysig wrth i baratoadau Brexit ddatblygu a pharhau i dderbyn sylw yn dilyn unrhyw gytundebau terfynol.

Mae **Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd – Adolygiad Cyflym a Diweddariad** yn adroddiad dilynol ychwanegol byr ac mae'n adeiladu ar ddadansoddiad manwl, *Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd*, a gafodd ei gyhoeddi'n wreiddiol ym mis Ionawr 2019, sy'n archwilio effeithiau posibl Brexit ar iechyd a llesiant pobl sy'n byw yng Nghymru yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Yr adroddiad **Policing Vulnerability in Wales** yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau sydd wedi ceisio deall byd plismona pobl sy'n agored i niwed ledled Cymru a fydd, yn ei dro, yn cefnogi ymagwedd y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd. Mae'n amlinellu realiti ymateb i unigolion sy'n agored i niwed ar gyfer swyddogion rheng flaen, y galluogwyr a'r atalwyr mewn darpariaeth gwasanaeth gyfredol ac mae'n archwilio cyflwyno hyfforddiant ACE TIME.





08. Casgliad ac Edrych i'r Dyfodol



Dyma flwyddyn olaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol, ac rydym yn parhau i weithio tuag at gyflawni ein hamcanion. Rydym wedi gweithio'n helaeth â gwahanol randdeiliaid i'w cynnwys ac i ymgynghori â hwy er mwyn datblygu a chytuno ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf, set o amcanion newydd a chynllun gweithredu a fydd yn sail iddynt. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cwmpasu o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2024.

Bydd y timau yn parhau i weithio yn y gymuned gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu, a byddwn yn parhau i ddatblygu diwylliant cynhwysol o fewn y sefydliad, trwy ddatblygu rhwydweithiau amrywiaeth ein staff a thrwy adolygu ein harferion i sicrhau ein bod yn creu lle gwyh i weithio.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-2024) yn cynnwys manylion am sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni ein hamcanion diwygiedig dros y pedair blynedd, a byddwn yn parhau i weithredu ar gydraddoldeb ymhellach o fewn ein cynlluniau fel ein bod yn ystyried ac yn monitro effeithiau a chanlyniadau ein gwaith ar bobl â

nodweddion gwarchodedig yn gywir. Byddwn yn cefnogi arloesedd, yn annog arferion da ac yn herio arferion gwael. Caiff hyn i gyd ei gyflawni mewn partneriaeth â'n Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr sy'n gweithredu ar ran y grwpiau gwarchodedig.

Bydd unrhyw ofynion deddfwriaethol yn y dyfodol, fel y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, yn cael eu hymgorffori yn y cynllun newydd wrth iddynt ddod i rym.

Wrth gyflawni'r holl bethau hyn, byddwn yn cryfhau'r ffordd rydym yn gweithio ac yn arddangos ein hymrwymiad i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu o ddifrif.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

